CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **3 Medi 2024**

Teitl: **Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal**
Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2023 – 2024

Pwrpas yr adroddiad: **Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod trydydd chwarter 2023/2024**

Er: **Gwybodaeth**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant

Cyflwyniad

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yn ystod trydydd chwarter 2023/24.

Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Sail y wybodaeth yw'r ffurflenni monitro y mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn eu cwblhau yn dilyn pob adolygiad statudol o blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r wybodaeth arall y mae'r Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal adeg eu hadolygiadau statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc er mwyn nodi pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 6 person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc, ac os oes, gallai gyfeirio'r achos i

CAFCASS. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:

- Ar ddiwedd y chwarter 3, roedd 140 o blant/pobl ifanc yn derbyn gofal o'i gymharu â 130 Ar ddiwedd Chwarter 2.
- Cafodd 109 o blant/pobl Ifanc eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn. Adolygwyd 84.4% o blant o fewn yr amserlen statudol.
- Roedd 7 plentyn wedi gadael yn y chwarter hwn. O'r 7 hyn, dychwelodd 1 plentyn adref i'w deulu. Symudodd 1 person ifanc ymlaen i ddarpariaeth byw'n annibynnol a chafodd gorchymyn gofal 5 Plentyn/Pobl Ifanc ei ddirymu.
- Y ddarpariaeth lleoliad ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd bod 20 mewn gofal maeth Awdurdod Lleol (18 yn y sir, 2 tu allan i'r sir), 23 mewn lleoliadau gofal gan berthynas, roedd 19 mewn lleoliadau Asiantaeth Faethu Annibynnol, cafodd 20 plentyn eu lleoli gyda rhieni a chafodd 14 eu lleoli mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir, roedd 7 mewn llety â chymorth/byw'n annibynnol. Cafodd 2 blentyn eu lleoli gyda theulu a 4 mewn lleoliadau eraill.
- Ar gyfer plant a adolygwyd yn y chwarter hwn, y cynlluniau parhad oedd yn eu lle oedd: 40 o blant mewn gofal maeth tymor hir, 20 o blant yn parhau i gael gofal gan berthnasau / Aelodau o'r teulu, 12 plentyn wedi eu lleoli gyda rhieni, 9 plentyn yn cael eu tracio'n gyfochrog, 2 blentyn yn cael eu mabwysiadu, 4 plentyn mewn gofal preswyl a 3 o blant mewn lleoliad byw'n annibynnol.
- Roedd 60 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, roedd 26 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 4 o dan Orchymyn Lleoli ac 19 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 89.9% o'r plant ymweliad statudol o fewn yr amserlen o'i gymharu â 95.5% o'r plant yn Chwarter 2.
- Cofnodwyd bod 26.3% Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf o'i gymharu â'r 27.3% a oedd ar waith yn Chwarter 2. Roedd y ganran isel yn y chwarter yma eto oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio / Tîm Innovate a oedd wedi atal y cynlluniau rhag cael eu cwblhau ar amser. Roedd sylw yn cael ei roi i'r materion staffio ar hyn o bryd.
- Nododd 109 o adolygiadau fod safbwyntiau diwylliannol y plentyn / person ifanc yn cael eu bodloni.
- Cafodd 97 o bobl ifanc eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth Lleol oedd yn gallu siarad yr un iaith â nhw.
- Nododd 10 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal nad oedd yn bodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol.
- Cadarnhawyd bod Awdurdod Dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 57 o blant a adolygwyd, gydag 17 o adolygiadau yn nodi nad oedd hyn eto wedi'i wneud eto. Ni wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 14 adolygiad a gwnaeth 21 adolygiad arall gofnodi nad oedd yn berthnasol i'r person ifanc.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) sy'n deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 93.1%.
- Canran y plant â digon o grebwyll oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgynghori ynghylch eu hadolygiad oedd 97.6%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 90.2%.
- Canran y rhieni roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn yr adolygiad oedd 96.8%.

- Canran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal oedd 95.4%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 86.8%.
- Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a dderbyniodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol oedd 92.5%.
- Cynhaliwyd 18 o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn. Dim ond 33.3% o Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a chynhaliwyd o fewn y terfynau amser ac roedd hyn oherwydd amryw o resymau, gan gynnwys argaeledd y person ifanc a gweithwyr proffesiynol eraill. Bu rhaid newid rhai adolygiadau oherwydd argaeledd y Cynorthwywyr Personol a bu'n rhaid aildrefnu rhai eraill.
- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% Yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer eu cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 66.7% a chofnodwyd mewn 50% o'r adolygiadau bod y person ifanc wedi mynychu ei adolygiad.
- Mewn 88.9% adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na. Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Trosolwg a Chraffu:
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Fframwaith Polisi:
Strategaeth Gorfforaethol

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Creu cymunedau gofalgar ac iach

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
O fewn y gyllideb graidd

Goblygiadau cyfreithiol:
Dim

Goblygiadau staffio:
Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:
Dim

Risg(iau):
Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau o ran niwed i blant a sut y cânt eu diogelu.

Pwerau Statudol:
Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Papurau Cefndir:
Dim ond dogfennau mewnol y Gwasanaethau Arbenigol

Atodiadau:
Atodiad A- Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3 2023/24

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

Swyddog Adrodd:
Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol: Diogelu

Dyddiad:
13 Mawrth 2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Gwasanaeth Diogelu

Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

Chwarter 3: 1 Hydref 2023 – 31 Rhagfyr 2023

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

CYNNWYS

TUDALEN:		
ADRAN UN:	**CYFLWYNIAD**	**3**
ADRAN DAU:	**CYNLLUNIO GOFAL**	**4**
ADRAN TRI:	**YMGYNGHORI A CHYFRANOGI**	**22**
ADRAN PEDWAR:	**PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU**	**25**
ADRAN PUMP:	**GWERTHUSO**	**25**
ADRAN CHWECH:	**CYNLLUNIAU LLWYBR**	**26**
ADRAN SAITH:	**GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD**	**28**
ADRAN WYTH:	**GOFAL SEIBIANT BYR**	**29**

ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro a gwblhawyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn / person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gwneud hyn ar gyfer 6 phlentyn / person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

ADRAN DAU

CYNLLUNIO GOFAL

1. Y Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 3:

Mae'r tabl a'r siart isod yn nodi cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal ar ddiwedd bob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.	
31 Rhagfyr 2023	140
30 Medi 2023	130
30 Mehefin 2023	125
31 Mawrth 2023	132
31 Rhagfyr 2022	122
30 Medi 2022	112
30 Mehefin 2022	105
31 Mawrth 2022	100
31 Rhagfyr 2021	97



2. Nifer a chanran yr adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol

<u>Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 84.4%</u>

Adolygwyd 109 o blant yn ystod y chwarter hwn.

- Cynhaliwyd 92 (84.4%) o'r cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn y terfynau amser statudol.

- Cynhaliwyd 17 (15.6%) o'r cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal y tu allan i'r terfynau amser statudol; cofnodwyd y rhesymau canlynol:-

  - Bu oedi o ran adolygiad un plentyn oherwydd argaeledd y teulu.
  - Yn achos plentyn arall, cynhaliwyd y cyfarfod adolygu y tu allan i'r terfynau amser am nad oedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi rhoi gwybod am y lleoliad newydd.

- Yn achos 2 blentyn arall, cynhaliwyd y cyfarfod adolygu y tu allan i'r terfynau amser am nad oedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi rhoi gwybod am y lleoliad newydd ac oherwydd argaeledd y Gweithiwr Cymdeithasol.
- Bu oedi o ran adolygiadau 4 plentyn arall oherwydd argaeledd y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Swyddog Adolygu Annibynnol.
- Bu oedi o ran adolygiadau 4 plentyn arall oherwydd amgylchiadau teuluol.
- Bu oedi o ran adolygiad 5 plentyn arall oherwydd materion staffio.

	Hyd-Rhag 2023	Gorff-Medi 2023	Ebr-Meh 2023	Ion-Maw 2023	Hyd-Rhag 2022
Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter	109	88	95	101	116
Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser	92	84	90	95	99
Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser	17	4	5	6	17



3. Oed a rhyw'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



4. Anghenion Diwylliannol, Crefyddol ac leithyddol

Nododd 109 (100.0%) adolygiad fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc yn cael eu bodloni.

Cydnabuwyd mewn 68 adolygiad fod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni; mewn 16 adolygiad arall, nid oedd yr anghenion wedi'u bodloni / nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion yn cael eu bodloni neu beidio.

Roedd angen cyfieithydd ar gyfer 11 adolygiad a chafodd hyn ei ddarparu ar gyfer 8 o'r adolygiadau hyn. O ran y 3 adolygiad arall, nododd 2 o'r adolygiadau bod cais wedi'i wneud am gyfieithydd ond ni ddaeth y cyfieithydd i'r adolygiad. Yn yr adolygiad arall, er bod cais am gyfieithydd wedi'i wneud, nid oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi gwneud y trefniadau priodol.

5 Dinasyddiaeth

Mewn 93 adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig, gyda 16 adolygiad yn nodi nad oedd y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig.

Roedd 11 plentyn / person ifanc yn Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, ac nid oedd gan yr un ohonynt Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Cofnododd pob un o'r 11 adolygiad nad oedd cais wedi cael ei wneud ar gyfer Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd; cofnododd 7 o'r adolygiadau hyn fod y person ifanc yn cael ei gefnogi gyda hyn.

Roedd 5 plentyn / person ifanc arall nad oeddent yn Ddinasyddion y Deyrnas Unedig; cadarnhawyd bod gan 2 o'r bobl ifanc hyn Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd; ond nid oedd yn hysbys a oedd gan y 3 phlentyn arall Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

6 Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

Math o Leoliad	Yn y Sir	Tu Allan i'r Sir	Cyfanswm
Gofalwyr sy'n Berthnasau	17	6	23
Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol	18	2	20
Lleoli â Rhieni	17	3	20
Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol	9	10	19
Preswyl		14	14
Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol		7	7
Arall	3	1	4
Lleoli â theulu	1	1	2
Mabwysiadu			
Preswyl Mamau a Babanod			
Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol Rhieni a Babanod			
Ysbyty			
	65	**44**	**109**



Roedd 97 o'r bobl ifanc a oedd wedi'u lleoli gyda Gofalwyr Maeth Lleol wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr a oedd yn medru siarad eu hiaith gyntaf. Nodwyd nad oedd gwybodaeth ar gael am ddau berson ifanc arall.
Nododd 10 o'r adolygiadau fod y person ifanc yn blentyn ar ei ben ei hun a oedd wedi'i leoli mewn lleoliad gofal nad oedd yn bodloni eu hanghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad fel y gallai'r person ifanc gymryd rhan.

7. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd	
Gorchymyn Gofal Llawn	60
Gorchymyn Gofal Dros Dro	26
Gorchymyn Lleoli	4
Adran 76	19
Cyfanswm	**109**



Awdurdod Dirprwyedig

Cadarnhawyd bod awdurdod dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 57 o blant a adolygwyd, a nodwyd mewn 17 adolygiad nad oedd hyn wedi'i wneud eto. Ni wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 14 adolygiad a chofnodwyd mewn 21 adolygiad arall nad oedd hyn yn berthnasol i'r achos.

.

8. Y rhesymau pam fod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

Cyfnod	Y nifer sydd wedi gadael gofal	Y rheswm dros adael gofal				
		Mabwysiadu	Dychwelyd adref at y teulu	'Pan rwyf yn barod'	Dirymu'r Gorchymyn Gofal	Llety â chymorth / Byw'n Annibynnol / Cysylltu Bywydau
Hyd - Rhag 2023	**7**		1		5	1
Gorff - Medi 2023	**7**	2	3			2
Ebr - Meh 2023	**20**		2	1	15	2
Ion - Maw 2023	**3**	1				2
Cyfanswm	**37**	**3**	**6**	**1**	**20**	**7**



9. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 99.1%

- Cofnodwyd mewn 108 (99.1%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwys wedi'i bennu ac yn gweithio gyda'r plentyn.

- Cofnodwyd mewn 1 (0.9%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal fod y plentyn wedi'i ddyrannu i'r tîm ond ni chafodd y plentyn hwnnw weithiwr cymdeithasol dynodedig.

10. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal o dan adolygiad a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser gofynnol.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 89.9%

- Derbyniodd 98 (89.9%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.



11. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 26.3%

- Daeth 19 o blant yn Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 5 (26.3%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad ei leoliad. Nid oedd Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 14 plentyn / person ifanc arall.



- Cofnodwyd mewn 67 (61.5%) adolygiad fod y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) yn gyfredol.

- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 42 plentyn. Nodwyd bod dal angen diweddaru'r Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer 36 plentyn / person ifanc.

12. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 44.4%

- Cynhaliwyd 9 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnodwyd mewn 4 adolygiad (44.4%) fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno, o gymharu â 63.6% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 11 (10.1%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn, cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad / Cynllun Gofal a Chymorth / Cynllun Parhad.

  Dyma oedd natur y pryderon: -
  - Pryderon ynghylch gallu'r rhiant i weithio â'r Awdurdod Lleol a'r effaith ar allu'r person ifanc i gael mynediad at weithgareddau neu i gael pasbort. Mae'r gofalwyr presennol wedi penderfynu gwneud cais am Warcheidiaeth Arbennig mewn perthynas â'r person ifanc.
  - Dim Cynllun Gofal ar y system er bod achos llys yn mynd rhagddo. Roedd y person ifanc yn byw gyda'i deulu estynedig.
  - Cafodd un person ifanc ei adolygu ddwywaith yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn yr adolygiad cyntaf, cafodd y person ifanc ei leoli gyda theulu yn Lloegr ac nid oedd wedi dechrau ar ei addysg. Serch hynny, bu newid allweddol i'r Cynllun Parhad arfaethedig wrth i'r person ifanc ddychwelyd i Geredigion a gwrthod dychwelyd i'w leoliad gyda'r teulu yn Lloegr. Yn yr adolygiad nesaf, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn dal i argymell i'r Gwrandawiad Llys Terfynol y dylai'r person ifanc fyw gyda'r teulu yn Lloegr, er bod y person ifanc yn dal i fyw yng Ngheredigion a'i fod yn gwrthod dychwelyd i Loegr.

- Mae un person ifanc ar hyn o bryd mewn lleoliad nad ydyw wedi'i reoleiddio a hynny ar ôl i'r lleoliad maethu fethu. Felly, mae angen ateb hirdymor i sicrhau gofal hirdymor. Mae'r achos gofal yn dal i fynd rhagddo.
- Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch trefniadau gofal hirdymor un person ifanc, gan fod effaith emosiynol y newidiadau i'w gweld yn amlwg ar y person ifanc ac mae angen sicrwydd arno ynghylch cartref hirdymor.
- Nid yw achos un person ifanc wedi cael ei drafod ym Mhanel y Cynllun Parhad. Yn yr achos dan sylw, cafwyd newid o ran y gweithiwr cymdeithasol ac roedd yr achos llys yn parhau.
- Roedd angen cynllun clir ar un person ifanc a dywedodd y gweithiwr cymdeithasol ei fod / ei bod yn chwilio am leoliad lle byddai modd i'r person ifanc aros gyda theulu. Fodd bynnag, ni chafodd y sefyllfa ei hasesu.
- Bu oedi yn y cynllun i ddiddymu gorchymyn gofal yn achos grŵp o ddau berson ifanc sy'n frawd a chwaer.
- Roedd person ifanc arall mewn lleoliad tymor byr unwaith eto ac roedd yn aros am ganlyniad asesiad rhiant. Byddai ef/hi yn dymuno byw gyda'r rhiant sy'n destun asesiad yn barhaol ond ymddengys ar hyn o bryd bod pethau wedi cael eu gadael i lithro yn ormodol o safbwynt y plentyn.



13. Hyd yr amser mewn gofal:



14: Natur y Cynlluniau Parhad:



15. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd ofal seibiant byr gan rywun heblaw eu prif ofalwyr

- Nododd 10 (9.2%) Adolygiad fod y plentyn / person ifanc yn cael gofal seibiant byr i ffwrdd o'i brif ofalwr; dywedodd pob un o'r Adolygiadau hyn fod y gofal seibiant yn diwallu anghenion y person ifanc.

16. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys sydd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 63.6%

- Mewn 7 (63.6%) adolygiad o berson ifanc cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar ei gyfer.

- Cofnododd 4 (36.4%) adolygiad nad oedd gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu; fodd bynnag dyrannwyd Ymgynghorydd Personol i 2 o'r bobl ifanc hyn; cofnododd y 2 arall nad oedd cynghorydd personol wedi'i ddyrannu eto.



17 Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (o oedran a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 93.1%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 87 o blant / pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 22 o blant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 81 (93.1%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd o'i gymharu â 90.3% yn y chwarter blaenorol.

- Nododd 6 (6.9%) Adolygiad fod angen gwneud gwaith Taith Bywyd gyda'r plentyn / person ifanc i'w helpu i ddeall y rhesymau pam ei fod yn derbyn gofal, nodwyd bod 4 o'r plant hyn wedi'u lleoli gyda'u rhieni/neiniau a theidiau.

18. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynllun Gofal a Chymorth.

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 83 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 26 o blant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Dangosodd 70 (84.3%) o'r grŵp hwn lefel o ddealltwriaeth o natur eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (rhan 6).

- Cofnododd 13 (15.7%) adolygiad fod angen rhannu hwn gyda'r plant / pobl ifanc.

19. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud plant sy'n derbyn gofal.

- Mewn 11 (10.1%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â (11.4%) yn y chwarter blaenorol.

Y rhesymau dros newid y lleoliad oedd:

- Roedd gan 1 person ifanc symudiad cam-i-lawr wedi'i gynllunio i leoliad lled-annibynnol.
- Ar gyfer person ifanc arall, roedd bwriad i symud i leoliad tymor byr; fodd bynnag, oherwydd newid yn amgylchiadau gofalwyr roedd symudiad ychwanegol heb ei gynllunio i leoliad tymor byr pellach.
- Oherwydd lleoliad gyda gofalwyr sy'n berthnasau yr ystyriwyd ei fod yn anniogel, roedd gan 1 person ifanc symudiad heb ei gynllunio i aelodau pellach o'r teulu.
- Roedd 3 symudiad heb ei gynllunio ar gyfer 1 person ifanc oherwydd iddo adael lleoliad a 'syrffio soffas' gyda ffrindiau, gyda'r Awdurdod Lleol yn parhau i nodi lleoliad addas.
- Roedd grŵp o frodyr a chwiorydd o 2 wedi cynllunio i symud o'u lleoliad maeth wrth i leoliad maeth pellach gael ei nodi yn nes at eu hysgol a oedd yn lleihau amseroedd teithio ar gyfer cyswllt â'r ysgol a'r teulu.
- Roedd gan 1 person ifanc symudiad cyfreithlon wedi'i gynllunio oddi wrth un rhiant oherwydd gallu'r rhiant i amddiffyn y person ifanc i'r rhiant arall.
- O ganlyniad i fethiant lleoliad maeth, cafodd 1 person ifanc symudiad heb ei gynllunio i leoliad heb ei reoleiddio.
- Roedd gan 1 person ifanc symudiad heb ei gynllunio o 1 aelod o'r teulu i aelod arall o'r teulu ac wedi hynny roedd wedi cynllunio symudiad i ofalwr maeth.
- Arweiniodd gofalwyr yn penderfynu i ymddiswyddo at 1 person ifanc yn bwriadu symud i ofalwyr maeth hirdymor pellach.
- Roedd gan 1 person ifanc arall gynllun i symud o leoliad tymor byr i leoliad tymor byr heb ei reoleiddio.

Roedd gan 5 o blant symudiadau heb eu cynllunio, cofnododd 1 adolygiad bod Cyfarfod Sefydlogrwydd wedi'i gynnal o fewn 6 wythnos. Nododd 2 adolygiad arall nad oedd Cyfarfod Sefydlogrwydd wedi'i gynnal gyda 2 adolygiad pellach yn nodi nad oedd yn hysbys a oedd Cyfarfod Sefydlogrwydd wedi'i gynnal.

20 Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.4%</u>

- Cofnodwyd bod 104 (95.4%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion plant / pobl ifanc o'i gymharu â 97.7% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 5 (4.6%) adolygiad nad oedd y cynllun lleoli/gofal a chymorth yn diwallu anghenion y plentyn / person ifanc. Y rhesymau a gofnodwyd oedd: -

  - Ar gyfer 1 Person Ifanc, nodwyd bod anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu; fodd bynnag mae'r person ifanc angen lleoliad anogol ar ei ben ei hun.
  - Nodwyd bod 1 person arall wedi gadael ei leoliad a'i fod yn 'syrffio soffas'; a chredir nad oedd wedi cofrestru gyda gwasanaethau lleol.
  - Nodwyd mewn adolygiad ar gyfer grŵp o 2 o frodyr a chwiorydd fod gweithwyr proffesiynol yn diwallu anghenion y plant yn fwy felly na'r rhiant.

- Mae 1 person ifanc wedi symud lleoliad ers hynny oherwydd ei fod yn anhapus gyda'r lleoliad a phryderon a oedd gofalwyr maeth yn diwallu anghenion y person ifanc.

21. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn

- Mewn 5 (4.6%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal, nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.

22. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

- Nodwyd mewn 4 (3.7%) adolygiad yn ystod y chwarter bod y person ifanc wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

23. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 92.5%

- Roedd 99 (92.5%) o Blant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal wedi cael asesiad iechyd diweddar yn eu hadolygiad, sy'n cymharu â 95.4% yn y chwarter blaenorol.

  - Cofnodwyd mewn 11 (57.9%) o'r Adolygiadau Cyntaf fod yr Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos i'r plentyn ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal.

  - Yn achos 8 (42.1%) adolygiad cyntaf, cofnodwyd nad oedd yr Asesiad Iechyd wedi'i gynnal o fewn 4 wythnos i'r plentyn ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal. Fodd bynnag, cofnododd 7 o'r adolygiadau hyn fod Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau wedi hynny. Roedd un Asesiad Iechyd arall yn parhau i fod heb ei gwblhau.

  - Yn achos 88 (100.0%) adolygiad pellach, cofnodwyd bod Asesiadau Iechyd yn cael eu cynnal bob 6 mis ar gyfer plant o dan 5 oed a phob 12 mis i blant dros 5 oed.

- Gwrthododd 2 (1.8%) plentyn/person ifanc sy'n Derbyn Gofal gael asesiad iechyd wedi'i gwblhau ac felly cawsant eu tynnu allan o'r sefyllfa.



Sylw: Mae oedi yn digwydd yn aml oherwydd na chaiff gwybodaeth ei rhannu am blant newydd yn symud i leoliad, bod lleoliad yn newid neu fod yr Awdurdod Lleol yn dod â lleoliadau i ben.

24. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal

Targed a bennwyd: 100% Yr hyn a gyflawnwyd 77.8%

Wedi cofrestru gyda deintydd.

Mae'r data ar gyfer cofrestru plant/pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud â 9 plentyn/person ifanc.

- Mewn 7 (77.8%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Mewn 2 (22.2%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc heb gofrestru eto gyda deintydd. Mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys ar gyfer 1 person ifanc.

****

Wedi cofrestru gyda deintydd.

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 90 o blant / pobl ifanc oherwydd diystyriwyd 19 plentyn / person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad plant sy'n derbyn gofal cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 88 (97.8%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu ag 89.6% yn y chwarter blaenorol.

- Roedd angen i 2 (2.2%) o blant a phobl ifanc gofrestru gyda deintydd. Mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys ar gyfer 1 person ifanc.

Sylw:

25. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

Wedi'i weld gan ddeintydd.

Mae'r data ar gyfer cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis i ddechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 8 o blant.

- Cofnododd 5 (62.5%) adolygiad fod y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis i ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal.

- Cofnododd 3 (37.5%) adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis i ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal. Mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys ar gyfer 1 person ifanc.

****

Wedi'i weld gan ddeintydd.

<u>Targed a bennwyd 90% - Yr hyn a gyflawnwyd 81.6%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 87 o blant/pobl ifanc gan fod 22 o blant/pobl ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu hadolygiad o blant sy'n derbyn gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 71 (81.6%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn ystod y 12 mis blaenorol, sy'n cymharu â 85.7% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 16 (18.4%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.



26. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn eu lleoliad

- Cofnododd 26 (89.7%) o adolygiadau fod y plentyn wedi'i gofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau'r lleoliad.

- Dywedodd 3 (10.3%) Adolygiad fod y cam gweithredu hwn yn dal heb ei gyflawni ar adeg yr adolygiad.

27. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu.

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd 109 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

- Roedd 92 (86.0%) o blant wedi cael eu holl frechiadau.
- Roedd 15 (14.0%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 10 o'r bobl ifanc hyn yn blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a chynigir rhaglen garlam iddynt gan fod ganddynt hanes brechu blaenorol anghyflawn.

Cafodd 2 adolygiad eu diystyru o'r ffigurau oherwydd bod y rhiant / person ifanc yn gwrthod y brechiadau.

Sylw: Mae diweddaru'r sefyllfa o ran imiwneiddio yn broses barhaus er mwyn medru cydymffurfio â'r amserlenni imiwneiddio.

- Mewn 99 (90.8%) adolygiad o blant cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi cael ei ystyried yn ystod Asesiad Iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.

- Cofnododd 10 (9.2%) adolygiad nad oedd y problemau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried.

****

- Nododd 7 (6.4%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod gan y person ifanc broblem iechyd meddwl.

- Nodwyd problemau ymddygiad ar gyfer 18 (16.5%) o blant / pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

28. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth.

- Cofnododd 3 (2.7%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod plentyn/person ifanc wedi'i atgyfeirio at CAMHS, cadarnhawyd mewn 1 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn, ar gyfer 1 adolygiad nid oedd yn hysbys a oedd yr atgyfeiriad

wedi'i dderbyn ac ar gyfer yr adolygiad arall roedd y person ifanc wedi symud allan o'r sir cyn y gellid cynnal Asesiad Dewis.

29. Natur y Ddarpariaeth Addysg:

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol:

Darpariaeth Addysg	
Plant cyn-ysgol	16
Disgyblion ysgol gynradd	35
Disgyblion ysgolion uwchradd	34
Uned Cyfeirio Disgyblion	1
Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol	
Coleg	8
Colli addysg	3
Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET)	7
Addysg heblaw yn yr ysgol	
Preswyl	2
Wedi gadael yr ysgol	
Tiwtora	1
Addysg Ddewisol yn y Cartref	2
Cyflogedig	
Cyfanswm	**109**



30. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.

Y targed a bennwyd 70% - Yr hyn a gyflawnwyd 86.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 76 plentyn / person ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 66 (86.8%) o blant a phobl ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.

  - Mewn 14 (63.6%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl newid ysgol, yn unol â'r gofynion.

  - Mewn 8 (36.4%) adolygiad cofnodwyd and oedd y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol.

  - Mewn 52 (96.3%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

  - Mewn 2 (3.7%) adolygiad cofnodwyd bod oes Cynllun Addysg Personol y person ifanc wedi darfod.

***

- Roedd 12 (15.4%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu cydnabod fel rhai ar y lefel uchaf.

***

- Mewn 26 (34.2%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant / pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg angen cymorth addysgol ychwanegol. Mewn adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth; fodd bynnag mewn 2 adolygiad nodwyd nad oedd y cymorth yn ei le.

***

- Mewn 11 (64.7%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 6 (35.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysgu wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

***

- Mewn 9 (11.8%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan nad oedd y plentyn / person ifanc mewn addysg tra ei fod yn aros am le mewn ysgol.

31. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio.

Y targed a bennwyd 0% - Yr hyn a gyflawnwyd 7.9%

- Mewn 6 (7.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud i ysgol arall, nad oedd yn sgil pontio, o'u gymharu â 3.5%% yn y chwarter blaenorol.

32. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol

Y targed a bennwyd: yn cael gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%
Y targed a bennwyd: yn cael gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 0 (0.0%) adolygiad adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu, o gymharu â 3.4% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Nid oedd unrhyw waharddiadau yn ystod y chwarter hwn.

ADRAN TRI

YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

1. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi medru ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

Y targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.6%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 84 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 25 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bu 3 o'r rhain yn bresennol yn yr adolygiad.

- Cofnodwyd mewn 82 (97.6%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.
- Cofnodwyd mewn 2 (2.4%) adolygiad and oedd ymgynghori wedi digwydd.

Dadansoddiad o'r ymgynghori

Bu 38 plentyn / person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy ddulliau .hybrid / Teams.

Roedd 44 plentyn / person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori, wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol a / neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Cysylltodd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn uniongyrchol â 40 plentyn / person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu tu hwnt i'r cyfarfod adolygu.

2 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 90.2%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 92 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 17 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cafodd 83 (90.2%) plentyn / person ifanc wybod am ei hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.
- Ni chafodd 9 (9.8%) plentyn / person ifanc wybod am ei hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 96.2%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 79 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 30 adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 76 (96.2%) o blant / pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o gymharu â 90.8% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 3 (3.8%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y plentyn/ person ifanc yn gwybod/ bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ansicr a oedd y plentyn / person ifanc yn gwybod am y broses gwyno neu beidio.

4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu.

Y targed a bennwyd 80% - Yr hyn a gyflawnwyd 96.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 95 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 14 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 92 (96.8%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a / neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a / neu roeddent yn bresennol yn y cyfarfod adolygu, a / neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

- Nodwyd mewn 3 (3.2%) adolygiad and oedd ymgynghori wedi digwydd.
  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon ar gyfer 92 adolygiad.
  Mewn 56 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a / neu ar ôl yr adolygiad.

5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 89 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 20 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu'n byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 89 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a / neu buont yn bresennol yn y cyfarfodydd adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 84.4%

- Mewn 92 (84.4%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

- Mewn 17 (15.6%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

Sylw: Pan fo pobl ifanc yn byw y tu allan i'r sir, mae'n fwy anodd cael y gweithwyr iechyd proffesiynol i fod yn bresennol. Byddwn yn dilyn lan ar absenoldeb / derbyn adroddiadau.

7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 94.0%

- Mewn adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal roedd 79 (94.0%) cynrychiolydd o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig, o'i gymharu â 94.0% yn y chwarter blaenorol.

- Maen 5 (6.0%) adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cofnodwyd and oedd cynrychiolydd o'r ysgol yn bresennol ac nid oedd adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei ddarparu chwaith.

8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Dogfennau Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 30.3%

- Mewn 33 (30.3%) adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu, o gymharu â 44.3% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 76 (69.7%) adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal cadarnhawyd nad oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu.

ADRAN PEDWAR:

PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Gweithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer un person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd 5 adolygiad canol cyfnod yn ystod y cyfnod hwn a lle'r oedd angen roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnal adolygiad yn gynt pan roedd pryderon.

ADRAN PUMP:

GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

ADRAN CHWECH

CYNLLUNIAU LLWYBR

Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 18 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.

- Cynhaliwyd 6 (33.3%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser, o gymharu â 91.3% yn y chwarter blaenorol.

- Cynhaliwyd 12 (66.7%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu hwnt i'r terfynau amser. Dyma oedd y rhesymau a gofnodwyd:-

  - Aildrefnwyd 5 adolygiad ac roedd oedi wrth aildrefnu.
  - Aildrefnwyd 3 adolygiad o ganlyniad i Ymgynghorydd Personol yn gorfod delio ag argyfwng ac adolygiad arall oherwydd argaeledd Ymgynghorydd Personol.
  - Aildrefnwyd 1 adolygiad arall oherwydd argaeledd gweithwyr proffesiynol a person ifanc.

2 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.

- Ymhob un o'r 18 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Weithiwr Cymdeithasol dynodedig a/neu Ymgynghorydd Personol.

3 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion Adolygu Cynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod.

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 16 (88.9%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr, o gymharu â 78.3% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 2 (11.1%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

4 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu.

- Cadarnhawyd mewn 12 (66.7%) adolygiad y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'i gynrychioli yno a chyfleu ei farn.

- Nodwyd mewn 6 (33.3%) adolygiad nad oedd y person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'i gynrychioli yno a chyfleu ei farn.

5 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu.

- Mewn 9 (50.0%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

- 9 (50.0%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

6 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodloni anghenion y person ifanc.

- Mewn 16 (88.9%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

- Mewn 2 (11.1%) adolygiad nodwyd nad oedd y cynllun yn bodloni anghenion y person ifanc; Dyma'r rhesymau a gofnodwyd: -

  - Nid yw person ifanc yn ymgysylltu â'i Gynllun Llwybr, ei Wasanaeth na'i Ymgynghorydd Personol. Pe bai'n cael ei wneud, gallem ddweud bod y Cynllun Llwybr yn bodloni ei anghenion ond ni allwn ddweud hynny ar hyn o bryd.
  - Nid yw person ifanc wedi bod yn bles gyda'r Ymgynghorydd Personol ac nid yw wedi bod yn ymgysylltu â'r cynllun. Mae o'r farn nad yw ei anghenion yn cael eu bodloni drwy'r cynllun na thrwy ei weithiwr gan nad yw'n derbyn y gefnogaeth sy'n ddymunol.

7 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal / troi'n 18 oed.

- Mewn 1 (100.0%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr wedi'i ddiweddaru cyn i'r person ifanc adael gofal / troi'n 18 oed.

8 Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

ADRAN SAITH

GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

ADRAN WYTH

GOFAL SEIBIANT BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofal seibiant byr yn ystod y chwarter hwn.